YSGOL PENCAE
Highfields, Gilian Road
Llandaf, Caerdydd
CF5 2QA
Ffôn: 029 20563851
Ebost: ysgolpencae@cardiff.gov.uk

@ pencae2
Dilynwch ni ar Trydar
Follow us on Twitter

Cylchlythyr Rhif 18/*Newsletter No 18*
25.01.19

Annwyl Riant neu Warcheidwad / *Dear Parent or Guardian,*

Diwrnod Santes Dwynwen Hapus i chi gyd!
Happy Santes Dwynwen Day to you all!

Disgo Santes Dwynwen

Diolch yn fawr iawn i'r CRhA am drefnu disgo hynod hwyliog i'r disgyblion nos Fawrth diwethaf. Yn rhan o'r pris roedd cyfraniad am wisg anffurfiol; mae'r arian hyn yn gasgliad er budd Tafwyl, gŵyl arbennig yng Nghastell Caerdydd ar Fehefin yr 22ain a'r 23ain. O ganlyniad i'r casgliad yma, byddwn yn rhan o gystadleuaeth gan Fenter Caerdydd i ennill gig *'egscliwsif'* gan neb llai na Candelas. Croeswch eich bysedd!

Byddwn yn cyhoeddi elw'r digwyddiad CRhA cyn hir. Ond mae £200 wedi ei gasglu at goffrau Tafwyl – diolch!

Thank you very much to the PTA for organising a fantastic disco for the children on Tuesday. As part of the event (children wearing non-uniform) we collected money towards Tafwyl – a fantastic Welsh festival held on the 22nd and 23rd of June at the castle grounds. As a result, we will be entered into Menter Caerdydd's draw to win an exclusive gig by the fantastic, current Welsh band, Candelas. Cross your fingers!

We will be announcing the profit of the PTA very soon. But, £200 was collected in support of Tafwyl – diolch!

Ffonau Symudol/ *Mobile Phones:*

Mae nifer y ffonau symudol sydd yn dod i'r ysgol yn cynyddu yn ddyddiol. Does dim caniatâd i ddisgyblion gael ffonau yn y Clwb Brecwast, yn ystod y dydd nac i'w defnyddio ar dir yr ysgol ar

PSQM Primary Science Quality Mark Valid 2018 - 2021 SILVER AWARD

derfyn y dydd. Mewn achosion **prin** lle fo angen i'r ffôn ddod i'r ysgol, e.e. disgyblion sydd yn cerdded i'r ysgol yn annibynnol, mae'n rhaid i'r ffonau ddod i'r swyddfa yn syth pan maen nhw'n cyrraedd yr ysgol!

Yn ogsytal, mae amryw o achosion o gamddefnyddio ffonau wedi bod yn ddiweddar. Gofynnwn yn garedig i chi rieni fod yn wyliadwrus o ddefnydd eich plant o'r ffonau.

*The amount of mobile phones that come to school is increasing daily. The children are not allowed to use mobile phones in the Breakfast Club, during the day or on school grounds at the end of the day. In the **rare** occassions that phones need to come to school, e.g. they walk independently to/from school, the phones need to be brought to the office straight away.*

Also, recently we have been made aware of various accounts of misuse of the phones. We kindly ask you parents to monitor your child's use of the phone.

Cogurdd (cystadleuaeth goginio/*cooking competition*) – yr Urdd: Blwyddyn/*Year* 4, 5, 6

Gobeithio eich bod wedi bod yn brysur yn ymarfer ar gyfer y Cogurdd. Rydym yn falch iawn i gyhoeddi mai ein beirniad eleni fydd Francesco Furci (tad Mabon, Dosbarth Derbyn) sef cogydd a pherchennog Caffé Fragolino yn Llandaf. Bydd rownd gyntaf y gystadleuaeth yn neuadd yr ysgol am 3.30yh ar nos **Iau, 31ain o Ionawr.**

http://www.urdd.cymru/cy/eisteddfod/cystadlu/cogurdd/

*We hope that you have been very busy practising for the Cogurdd competition. We are thrilled to announce that our judge this year is Francesco Furci (Mabon's dad, Dosbarth Derbyn) who's the chef and owner of Caffé Fragolino, in Llandaff. The first round of the competition will take place at 3.30pm in the school hall on **Thursday, January 31st.***

http://www.urdd.cymru/en/eisteddfod/competitions/cooking/

PSQM
Primary Science Quality Mark
Valid 2018 - 2021
SILVER AWARD

Cystadlaethau Ysgrifennu yr Urdd / Urdd Writing Competition

Rydym yn awyddus i bob disgybl (bl2-6) i gystadlu yn y cystadlaethau ysgrifennu yn yr Urdd eleni. Mae'r cyd-destunau isod yn ffocws yn ein gwaith iaith yn y dosbarth ond, mae hefyd croeso i'r disgyblion ysgrifennu ail ymgais adref. Gofynnwn i unrhyw ddarnau (wedi'u labelu'n glir, gweler rheolau isod) gyrraedd yr ysgol erbyn **11.02.19.** Am fwy o wybodaeth, edrychwch ar y ddolen isod:

http://www.urdd.cymru/cy/eisteddfod/cystadlu/gwaith-cartref/llenyddiaeth-chyfansoddi/

*We are keen for every child from year 2-6 to compete in the writing competitions this year as the Urdd Eisteddfod is in our home city. Therefore, the themes below will be our language focus in our lessons in school. But if you would like your child to complete a second piece at home or a different genre please send their work to school (clearly labelled – see rules below) by **11.02.19.** For more information, look at the link below:*

http://www.urdd.cymru/en/eisteddfod/competitions/home-work/llenyddiaeth-chyfansoddi/

Themâu Themes	**Bl2 ac iau** ***Yr2 and younger***	**Bl3 a 4** ***Yr 3 and 4***	**Bl 5 a 6** ***Yr 5 and 6***
Barddoniaeth / ***Poetry***	Pen-blwydd	Ffrindiau	Seren
Rhyddiaith / ***Prose***	Amser Chwarae	Tegan	Llong Ofod

Labelu gwaith Eisteddfod yr Urdd / *Labelling their Eisteddfod work*:

Yn sownd i'r gwaith bydd angen amlen. Ynddo, rhowch ddarn o bapur gyda'r wybodaeth yma:
You need to attach an envelope to the work. The envelope will need to contain the following information:

(i) rhif y gystadleuaeth / *Competition Number*
(ii) rhif aelodaeth yr ymgeisydd / *Membership number*
(iii) enw yr ymgeisydd / *Name*
(iv) Ysgol Pencae;
(v) Caerdydd;
(vii)dyddiad geni.

Yn weledol ar yr amlen, ysgrifennwch rif y gystadleuaeth, y ffugenw a'r rhif aelodaeth yn unig.
Outside the envelope, write the competition number, false name and membership number only.

PSQM Primary Science Quality Mark Valid 2018 - 2021 SILVER AWARD

Clybiau Ar Ôl Ysgol / After School Clubs

Wythnos / *Week:* 28.01.19	Clybiau / Clubs		
Dydd Llun	**15.30pm – 16.30pm** Côr / *Choir*		
Dydd Mawrth	**15.30pm – 16.30pm** Clwb Pêl-droed / *Football Club* (Cymysg / Mixed Bl3-6)	**15.30pm – 16.30pm** Dancefit (aelodau yn unig / *members only*)	
Dydd Mercher	**15.30pm – 16.30pm** Clwb Jiwdo / *Judo Club (Bl1-6)*		
Dydd Iau	**15.30pm – 16.30pm** Clwb Hwb (aelodau yn unig / *members only*)	**15.30pm – 16.30pm** Clwb Ffrangeg (aelodau yn unig / *members only*)	**15.30pm – 16.30pm** Clwb Pêl-rwyd *Netball Club* (Cymysg / Mixed Bl3-6)

Dyddiadau pwysig / *Important dates*

Dyddiad / Date	Gweithgaredd / *Activity*
31.01.19	Cyfarfod CRhA / *PTA Meeting*
06.02.19 ***2.50pm***	Gwasanaeth Dosbarth Blwyddyn 4 *Class Assembly*
13.2.19	*Diwrnod DPP/*CPD Day *clwstwr Ysgol Glantaf cluster – dim ysgol i'r disgyblion/*no school for the pupils
15.02.19: **2.50pm**	Gwasanaeth Agored */ Open Assembly*
25.02.19 – 01.03.19	Hanner Tymor */ Half Term*
14.03.19	Eisteddfod offerynnol (yn ystod y diwrnod ysgol) *Instrumental Eisteddfod(during the school day)*
18.03.19 ***6.30pm***	Blwyddyn 4: Cyflwyniad Maes y Fron *presentation*
22.03.19 **2.50pm**	Gwasanaeth Agored */ Open Assembly*
23.03.19	Eisteddfod Gylch Yr Urdd - mwy o fanylion i ddilyn *Area Urdd Eisteddfod – more details to follow*
27.03.19 & 28.03.19	Noson Rieni: Dosbarth Derbyn – Blwyddyn 6 *Parents Evening: Dosbarth Derbyn – Year 6*
06.04.19	Eisteddfod Sir yr Urdd – mwy o fanylion i ddilyn *County Urdd Eisteddfod – more details to follow*
10.04.19 – 12.04.19	B4 – Maes y Fron
29.04.19	Dyddiad cau Celf a Chrefft yr Urdd *Closing date for the Arts and Crafts Urdd Competition*
07.05.19 – 14.05.19	B2 – B6: Profion Cenedlaethol/ *National Tests*
28.06.19	Mabolgampau / *Sports Day*
01.07.19 – 04.07.19	Wythnos Feicio Bl5 */ Yr5 Cycling Week*
19.07.19	Diwrnod olaf y flwyddyn academaidd / *Last day of the academic year*

Siwan Dafydd
Pennaeth Dros Dro

PSQM
Primary Science Quality Mark
Valid 2018 - 2021
SILVER AWARD